# Am ba hyd, O Arglwydd, am ba hyd?

Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth Esgob Gregory
Dydd Mercher 27 Mai 2020.

Un o nodweddion cyson yr Ysgrythur yw disgwyl. Pobl Israel yn disgwyl yn yr Aifft i Dduw eu rhyddhau, yn disgwyl yn yr anialwch am Wlad yr Addewid, yn disgwyl i Dduw anfon y Meseia. Yn llyfr y Salmau, mae'r salmydd yn gofyn yn aml "Am ba hyd o Arglwydd?" fel yn nheitl y llythyr hwn - o'r chweched Salm ond yn un o lawer yr un fath. Yn y Dyrchafael, mae Iesu'n gofyn i'w ddisgyblion ddisgwyl nes y daw'r Ysbryd Glan. Felly, a hithau'n Ddydd Iau Dyrchafael ddydd Iau diwethaf, ac yn Sulgwyn y Sul nesaf, rydyn ni hefyd yn disgwyl, am ddyfodiad yr Ysbryd.

Ond mae'n rhaid mai'r disgwyl mwyaf oll, ar hyn o bryd beth bynnag, yw disgwyl am ddiwedd y cyfnod clo. Derbyniodd gwledydd Prydain y cyfnod clo yn rhyfeddol o dda, rwy'n meddwl. Mae'n debyg ein bod ni'n gweld enghreifftiau'r Eidal a gwledydd eraill a oedd o'n blaenau, ac roedd yna bron atgof o naws adeg rhyfel, yn enwedig gan ein bod hefyd yn dathlu diwrnod VE75. "We will meet again" sicrhaodd Ei Mawrhydi ni, yng ngeiriau Vera Lynn. Eto, yn ein gweddïau ar hyn o bryd, mae'n debyg ein bod ni'n dechrau dweud fel y salmydd ac yn pendroni "Am ba hyd?" Dyw'r atebion sydd ar y cyfryngau ddim yn codi hyder. Hyd yn oed pan mae Llywodraeth Lloegr yn dweud y gall yr ysgolion ail agor, mae yna lawer sy'n gwrthod, ac rydyn ni'n dal mewn rhyw fath o amhendantrwydd: rydyn ni eisiau gweld cefn y cyfnod clo ond dydyn ni ddim yn ddigon siŵr a yw hi'n ddiogel i ni fentro allan.

Roedd yr Apostol Paul yn annog y Cristnogion cynnar oedd yn dioddef dros eu ffydd ac a oedd yn disgwyl i'r Arglwydd dychwelyd mewn gogoniant. "Yr ydym hyd yn oed yn gorfoleddu yn ein gorthrymderau" mae'n dweud yn Rhufeiniaid 5.3,4 "oherwydd fe wyddom mai o orthrymder y daw'r gallu i ymddál, ac o'r gallu i ymddál y daw rhuddin cymeriad ac o gymeriad y daw gobaith. A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo, oherwydd y mae cariad Duw eisoes wedi'i dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni.". Rwy'n meddwl mai ystyr hyn, mewn geiriau eraill, yw mai gweithred Duw a ddaw gyntaf, a bod y ffaith fod cariad Duw wedi'u dywallt arnom ni yn Iesu a'r Ysbryd Glân yn golygu fod Duw eisoes ar waith yn ein plith, yn ceisio dod â ni, drwy orthrymder, at obaith.

Yn rhyfedd iawn, efallai fod prysurdeb bywyd a'r weinidogaeth *cyn* y cyfnod clo wedi ein hatal rhag llesgau. Mae dyddiau gwag y cyfnod clod wedi rhoi lle a chyfle i ni: ond mae'n rhaid i ni gynhyrchu ein hegni ein hunain ac rydyn ni'n gweld ein hunain yn llesghau. Eto mae Duw yn ceisio trawsnewid y cylch hwn. Mae eisiau i ni symud yn araf allan o hunan ddibyniaeth i gymuno mwy ag ef, agor ein hunain i gael ein hadnewyddu gan yr Ysbryd Glân er mwyn ein cyfeirio uchod ar daith bywyd. "Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws" meddai'r Iesu atgyfodedig yn nhrydedd bennod y Datguddiad (adnod 20) "ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato a swperaf gydag ef, ac yntau gyda minnau."

Rwy'n codi fy nghlustiau pan glywaf yr Iesu byw o lyfr y Datguddiad yn defnyddio delwedd parti swper. Mae fel petae'n dweud 'Beth wnawn ni pan fyddi'n fy ngadael i mewn? Byddwn

yn gwledda. ” Rwy’ siŵr ein bod ni i gyd wedi cael profiad ryw dro yn ein bywyd a wthio’r rhai diwethaf i adael drwy’r drws ar ôl parti a hwythau’n dweud “Diolch i chi am amser gwych.” Dyma sut y dylai treulio amser gyda Duw deimlo. Efallai y dylen ni ystyried y cyfnod clo fel rhyw fath o fan aros, lle mae Duw yn ein hadnewyddu, yn ein bwydo gyda bara ysbrydol ar gyfer y daith. Ychydig o amser mae rhywun yn ei dreulio mewn man aros, bydd y cyfnod clo yn llawer hwy, ond gall pob eiliad sy’n cael ei defnyddio i’n hadnewyddu’n ysbrydol ein helpu ar ein taith.

Gwnewch y gorau o'r ffyrdd y mae Duw yn eich adnewyddu chi. Efallai drwy weddi ddistaw, drwy ddarllen y Beibl, drwy wneud eich gorau dros y rhai rydych yn eu caru neu gael ysbrydoliaeth mewn celf, barddoniaeth, cerddoriaeth neu’r ardd. Ac efallai, yn wir, ym mhob un.

Mae’r myfyrdodau hyn i’w gweld yn dod mewn dwy ran. Ar un ochr, y gydnabyddiaeth y gall llesgedd ein trechu, ar y llaw arall y lluniaeth y mae Duw eisiau ei gynnig i ni. Cadwch y ffydd, gyfeillion annwyl. Ceisiwch nerth newydd gan Dduw. Chwiliwch am lawenydd. Bydded i Dduw eich bendithio, yn hael.

